**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 17 Hydref 2019 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | R Francis-Davies | D H Hopkins |
| A S Lewis | J A Raynor | S Pritchard |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C E Lloyd, A H Stevens a/ac M Thomas

---

## 79. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr R Francis Davies a A S Lewis gysylltiad personol â Chofnod 87 “Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol”;

2) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 87 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a dywedodd ei bod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

## 80. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Medi 2019.

## 81. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

1) **Yr Henadur Anrhydeddus Alan Lloyd - Cydymdeimladau**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar yr Henadur Anrhydeddus Alan Lloyd. Roedd Alan yn cyn-Gynghorydd, ac yn gyn-Faer.

Safodd pawb i ddangos cydymdeimlad a pharch.

**82. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**83. Hawl i holi cynghorwyr.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**84. Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2018/19.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflwyno a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cyhoeddi Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2018/19, a oedd yn adrodd am y cynnydd a wnaed i fodloni amcanion lles y cyngor ac i fodloni gofynion eraill a nodir yn y canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2018-2019.

**85. Dyfarnu Contract ac awdurdodi'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer adeilad newydd i YGG Tan-y-lan.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn ceisio:

i) Cymeradwyaeth ar gyfer cynllun yr adeilad newydd ar gyfer YGG Tan-y-lan yn amodol ar gadarnhad grant a chontract gyda Llywodraeth Cymru;

ii) Awdurdod i ddyfarnu'r contract ar gyfer y gwaith i dendr rhif 1, yn amodol ar gadarnhad grant a chontract gyda Llywodraeth Cymru;

iii) Cymeradwyo'r hysbysiad ynghylch addasiad i'r cynnig i ehangu YGG Tan-y-lan i ddyddiad gweithredu diwygiedig yn unol â phenodiad y contractwr arfaethedig ac amserlen ddiweddaredig y prosiect.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r contract ar gyfer gweddill y dyluniad ac er mwyn codi adeilad newydd ar gyfer YGG Tan-y-lan ar dir sy'n eiddo i'r cyngor yn Heol Beaconsview, y Clâs i dendr rhif 1, yn amodol ar gadarnhad grant a chontract gyda Llywodraeth Cymru

2) Cymeradwyo'r hysbysiad ynghylch addasiad i'r cynnig i ehangu YGG Tan-y-lan i ddyddiad gweithredu diwygiedig yn unol â phenodiad y contractwr arfaethedig ac amserlen ddiweddaredig y prosiect;

3) Cymeradwyo'r cynllun cyfalaf fel y'i disgrifiwyd ynghyd â'r goblygiadau ariannol, yn unol â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol, a hynny'n amodol ar gadarnhad grant a chytundeb gyda Llywodraeth Cymru.

## 86. Adfywio'n Dinas ar gyfer Lles a Bywyd Gwyllt - Strategaeth Isadeiledd Ardal Werdd Abertawe Ganolog ddrafft.

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi ac Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Isadeiledd ddrafft Ardal Werdd Abertawe Ganolog.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r cais i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Isadeiledd ddrafft Ardal Werdd Abertawe Ganolog.

## 87. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd y Crwys | Linda Place |
| 2) | Ysgol Gynradd Hendrefoelan | Y Cyng. Mary H Jones |
| 3) | Ysgol Gynradd Pen-y-fro | Andrea Jones |
| 4) | Ysgol Gynradd San Helen | Y Cyng. Erika T Kirchner |
| 5) | Ysgol Gyfun Treforys | Paul Relf |
| 6) | Ysgol Gyfun PenyrHeol | Graham Ashman |

Daeth y cyfarfod I ben am 10.27 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 17 Hydref 2019 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 22 Hydref 2019 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 23 Hydref 2019 |